
Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 46 Calan 2019



## Gwerth yr 'am byth' mewn byd o amser

Os byddwch yn darllen y geiriau hyn cyn y Nadolig – 'Nadolig Llawen!'

Os ydych yn eu darllen wedi'r Nadolig – 'Blwyddyn Newydd dda!'

Beth a ddigwydd i ni cyn diwedd 2019?

Mae ansicrwydd Brexit yn bwrw ei gysgod drosom. Ni all unrhyw un ohonom chwaith ymffrostio yn ein hiechyd, ein gwybodaeth, ein cryfder na'n doethineb i'r graddau ein bod yn medru darogan llwybrau ein rhawd eleni.

Yn y diwedd, darfod a wna ymffrost y dewraf; cilio a wna'r cryfaf. Ni all unrhyw un ohonom atal treigl amser na'i effaith arnom.

Fe allem ymateb trwy ddweud:

Un bywyd, a hwnnw'n oes fer sydd gen i – waeth i mi fyw i mi fy hun,
i fodloni fy hun. Wedi'r cwbl, fy mywyd i ydy o.

Gallwn droi i mewn arnom ein hunain a phorthi'n hofnau. Swatio a gwrando ar sŵn gwynt ein meidroldeb yn byddaru'n meddyliau.

Wrth feddwl am freuder ein bywydau, dywedodd Blaise Pascal,
y mathemategydd o Ffrainc:

> Brwynen yw dyn, y peth gwannaf yn y greadigaeth, ond y mae'n 'frwynen' sy'n meddwl. Nid yw'n angenrheidiol i'r bydysawd oll i ymarfogi i'w ddifa; gall nwy, neu ddiferyn o ddŵr fod yn ddigon i'w ladd. Ond pe bai'r bydysawd yn ei wasgu a'i ddifa, byddai gan ddyn fwy o anrhydedd na'r hyn sy'n ei ladd. Oherwydd fe ŵyr ef ei fod yn mynd i farw a bod gan y bydysawd fantais drosto; ond nid yw'r bydysawd yn gwybod dim.

A beth tybed ddylai'r 'frwynen' hon feddwl amdano ar ddiwedd blwyddyn?

Tybed oes gan ddoethineb y gorffennol unrhyw beth i'w gynnig i ni? Wedi'r cyfan, nid ein hoes ni yw'r gyntaf i fyw yng nghysgod ansicrwydd ei meidroldeb, na cheisio trefnu bywyd ffydd mewn oes ansicr, derfysglyd a bygythiol.

Tybed na cheir rhan o'r ateb i'n cyflwr gan y Salmydd (Salm 90)? Wedi cydnabod bod yr Arglwydd yn bod am byth, mae'r Salmydd yn dechrau myfyrio ar ansicrwydd ei oes ac ar fyrder ei einioes.

Dywed fod ein 'blynyddoedd yn darfod fel ochenaid'.



Ochenaid.

Sain.

Sŵn sy'n llawn o ddim.
Wedi ei seinio, fe beidia â bod.

Nid oes iddo gysgod, nac ôl troed.
Mae mor ddisylwedd â breuddwyd.

Ac eto ...

Ac eto ...

Fe ŵyr pob un ohonom sydd wedi ochneidio – mewn poen, mewn galar, mewn pryder, mewn angen – fod i'r ochenaid ddisylwedd ystyr sydd y tu hwnt i'w mynegiant.

Mae ei heffaith yn fwy na'i ffurf, ac mae iddi ystyr na all geiriau ei gostrelu. Er ei breuder, mae iddi arwyddocâd.

Wedi'r cyfan, ochenaid ydyw.

'Och'-enaid a luniwyd gan Dduw i fwynhau Duw am byth ydyw. Sylweddoliad diarwybod yw'r ochenaid nad mewn 'pethau' y mae ein gwerth terfynol na'n hurddas. Sain ddisylwedd yw'r ochenaid sy'n mynegi ein hiraeth am y tragwyddol sylweddol.

Doeth felly yw gweddi'r Salmydd: 'Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth.'

Calon ddoeth felly yw calon sy'n byw gan ystyried realiti'r ddwy elfen sydd ynghlwm â bywyd dyn ar y ddaear. Byrder yr hyn y gellir ei gyffwrdd a gwerth tragwyddol yr anadl sy'n sugno'r 'am byth' i mewn i'w fod. Anadl fregus ein heinioes sy'n llawn o bosibiliadau tragwyddol. Bod yr 'am byth' mewn gwisg dros dro.

Felly. Mae gwerth i'n heddiw ni er ei freuder. Mae gwerth i'n gweithgarwch o blaid Iesu Grist, er lles ein cyd-ddyn. Mae gwerth i'n gweddïo. Mae gwerth i'n haelioni o blaid yr efengyl. Mae gwerth mewn trefnu – os cofiwn yn barhaus fod i bob trefniant gymal atodol: 'Os yr Arglwydd a'i myn'.

Cymerwn anogaeth John Wesley i'r Methodistiaid cynnar i'n calon:

> Gwnewch yr holl ddaioni fedrwch chi,
> ym mhob ffordd fedrwch chi,
> ym mhob man fedrwch chi,
> i bawb fedrwch chi,
> am gymaint o amser ag sydd gennych chi.

*Watcyn James*

# Tudalen y Plant




Llongyfarchiadau i
**Anest Erwan**, Ysgol Sul Unedig Bow Street,
enillydd tasg y rhifyn diwethaf.
Nid oes cystadleuaeth y tro hwn, ond gobeithio y cewch chi hwyl yn rhoi cynnig ar y tasgau.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parchedig Ddr R. Watcyn James,***
***Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ***
***01970 880615***
***ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru***
***(Sylwer ar y cyfeiriad e-bost newydd)***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c***

| | |
|---|---|
| 14 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 16 Ionawr | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Pen-llwyn am 1.30 o'r gloch |
| 27 Ionawr | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 24 Mawrth | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org; Twitter: @capelygarn

Mae ysgolion Sul yn cwrdd
yng Nghapel Seion,
yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor,
ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yng Nghapel y Garn.
Croeso cynnes i blant o bob oed
– holwch y Gweinidog am fanylion

**Uno Cynulleidfaoedd**

**Capel y Babell, Dôl-y-bont, a Chapel y Garn, Bow Street**



Ddydd Sul, 21 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth dwys a hanesyddol yng Nghapel y Babell i ddathlu uno cynulleidfaoedd y Babell a'r Garn, gyda Mrs Margaret Daniel, Blaenannerch, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, yn llywyddu a Mr Alan Wynne Jones wrth yr organ.



Yn ogystal â chanu emynau addas i'r achlysur cafwyd mynegiant o ddiolchgarwch am y dystiolaeth a fu yng Nghapel y Babell gan Mr Tudor Wynne-Williams, a chlywyd cyfarchion gan bedwar o gyn-weinidogion y capel, sef y Parchedigion Elwyn Pryse, John Tudno Williams, Robert W. Jones a Wyn Rhys Morris.

Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad o gymeradwyaeth yr Henaduriaeth i'r uniad, ac offrymodd y Parch Wyn Morris weddi dros yr Eglwys Newydd. Estynnwyd gair cynnes o groeso i'r uniad gan yr Arglwydd Elystan-Morgan, a chafwyd anogaeth ddiffuant i'r eglwys newydd wrth wynebu'r dyfodol gan y gweinidog presennol, y Parch. Ddr Watcyn James.

Ar ôl traddodi'r Fendith gan y Llywydd aeth pawb i Festri'r Garn i gyd-gyfranogi mewn te croeso a oedd wedi ei baratoi gan Chwiorydd y Garn. Cynnes a chyfeillgar fu'r gyfeillach yno.

## Yr Adfent yn Seion

Fore Sul, 2 Rhagfyr, cynhaliwyd oedfa Adfent yn Seion yng ngofal yr aelodau. Defnyddiwyd deunydd 'Litwrgi Goleuo Cannwyll yr Adfent', wedi ei baratoi gan Gymorth Cristnogol, i ddechrau'r oedfa. Arweiniwyd ni drwy bedwar Sul yr Adfent i feddwl am yr angen i oleuo corneli tywyll ein byd lle mae pobl yn dioddef trais, gorthrwm, newyn ac erledigaeth a chyflwr truenus ffoaduriaid digartref sy'n ffoi rhag rhyfeloedd a dinistr. Wrth oleuo'r pedair cannwyll cyflwynwyd myfyrdodau ac offrymwyd gweddïau ymbilgar gan orffen gyda cherdd Robin Gwyndaf, 'Canhwyllau'r Adfent', a phob pennill yn cyfeirio at neges y canhwyllau: gobaith, heddwch, llawenydd, trugaredd, gan gloi â'r geiriau:

A nawr mae'r canhwyllau yn olau i gyd
Yn dweud bod yr Iesu'n Oleuni i'r byd
A bydded i ninnau yn llawen mewn ffydd
Oleuo un gannwyll o GARIAD BOB DYDD.



O gofio bod yr Adfent yn dechrau yn hanes yr Israeliaid yn y gaethglud yn disgwyl am Feseia i'w rhyddhau, ac o bosib yn gynharach na hynny, cyd-ddarllenwyd y garol Adfent 'O tyred di, Emaniwel', sy'n ein harwain i feddwl am yr hyn a arweiniodd at ragfynegi geni'r Iesu .
Yn ogystal, defnyddiwyd myfyrdodau o rifynnau *Gair y Dydd* ynghyd â'r hanes ar dudalen flaen rhifyn 30 Tachwedd o'r *Goleuad* yn sôn am berfformiadau dyddiol Drama'r Geni yng nghapel Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, a'r dylanwad ar un wraig yn arbennig. Ydy, mae'n werth cynnal oedfa Adfent ac elwa ar rannu profiadau eraill. Diolch i bob un a fu mor barod i gymryd rhan a Nadolig Llawen iawn i chwi bob un.

### *Cyfarchion*

Anfonwn eich cofion cynhesaf at holl aelodau eglwysi'r ofalaeth sydd mewn gwaeledd neu lesgedd — yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi, gan hyderu y cewch nerth ac adferiad wrth inni gamu i'r flwyddyn newydd.

# Gwreiddiau



Realiti na allwn ei osgoi yw bod cymaint o fywyd ein capeli – yr hyn yr ydym wedi ei etifeddu – yn dirwyn i ben. Y realiti yw na allwn oroesi ar ein pennau ein hunain. Does dim ots pa mor bruddglwyfus yr ydym wrth feddwl am ryw orffennol euraidd, pell. Nid dyna yw'r cyfnod y cawsom ein gosod ynddo. Nid heriau'n rhagflaenwyr yw ein heriau ni.

Byddwn yn anorfod yn gorfod dysgu cyd-drefnu, cyd-weithio a chyd-ddychmygu'r dyfodol sydd o'n blaenau gyda'n gilydd.

Weithiau, bydd hynny'n digwydd oddi fewn i ffiniau enwadol a hefyd, weithiau, bydd yn digwydd ar draws ffiniau enwadol.

Rywsut, trwy geisio'r Arglwydd cawn ein harwain i gyd-ganfod cân yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr.

A beth yw harmoni mewn cerddoriaeth, a chynghanedd mewn barddoniaeth, beth yw cyd-chwarae tîm pêl-droed neu rygbi ar y cae? Dim ond nodau a seiniau digyswllt, a nifer o unigolion gwahanol iawn eu cymeriad sy'n dod at ei gilydd i greu patrymau, harmoni, cytseinedd a buddugoliaeth.

Sylweddolwn, o newid y darlun, fod cynnydd a thwf i'r dyfodol yn ddibynnol ar iechyd gwreiddiau'r goeden.

Mae'r grŵp Gwreiddiau yn parhau i gyfarfod yn wythnosol ar fore dydd Iau. Y mae'r cyfarfod ar gyfer pawb – o bob capel a chynulleidfa, i bobl o ffydd, i bobl sy'n dal i chwilio am atebion, i bobl gadarn ac i bobl ansicr eu cred.

Ond credaf, o ailddarganfod y nerth anorchfygol sydd yng ngwreiddiau ein ffydd, y gallwn ddechrau ailddarganfod nerth yr Ysbryd Glân a thrugaredd Duw ar gyfer ein dyfodol.

Peidiwch â chadw'n ddieithr, na chadw draw am unrhyw reswm. Mae yna baned a sgwrs, holi a chwestiynu, a cheisio dirnad o'r newydd ddaioni'r Arglwydd Iesu tuag atom.

*Watcyn James*



Cafwyd cyflwyniad difyr iawn gan Llinos Dafis ar y testun
‘Menywod yn fy Mywyd’ yn Noson Agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn
ym mis Hydref—a’r festri’n llawn i’r ymylon!



## Ionawr

*Blaenor y Mis: D. Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T. Jenkins / Erddyn James*

**6** Oedfa dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse am 10 o'r gloch

9 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch
'Brenhinoedd, Breninesau, Ffermwyr ac Angylion'
– Shan Hayward

**13** Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
**DS** Cymerir llais yr eglwys ynghylch ethol rhagor o flaenoriaid

14 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

16 Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Capel Pen-llwyn am 1.30 o'r gloch

18 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Noson y Cadeirydd' – Richard Lewis

**20** Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

21 Cyfarfod Swyddogion y Garn am 2 o'r gloch

**27** Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
Capel y Garn am 10 o'r gloch

***Trefnu Cyfarfodydd yn y Garn***

Os byddwch am drefnu i ddefnyddio'r capel neu'r festri,
cysylltwch ag Ysgrifennydd y Garn, Alan Wynne Jones:
ffôn 01970 828163; ebost: alan.jones212@btinternet.com.
Diolch am eich cydweithrediad.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd Rhiannon Evans, Tregaron, i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 9 Hydref. Yn ystod y sgwrs cafwyd hanes sut yr aeth ati i sefydlu ei busnes ei hun yn Nhregaron, sef Gemwaith Rhiannon, yn 1971. Siop grefftau oedd yno i ddechrau, yn gwerthu pob math o nwyddau Cymreig yn ogystal â'r gemwaith. Ond ar ôl gweld creiriau Celtaidd mewn arddangosfa yn Llundain, dechreuodd Rhiannon weithio gemwaith oedd yn adlewyrchu Cymru drwy gyflwyno chwedlau Celtaidd yn y darnau, ac mae chwedlau Celtaidd yn boblogaidd iawn yn America. Hi sydd yn creu pob cynllun ei hun ac mae pob darn o emwaith wedi ei orffen â llaw. Mae'r busnes wedi tyfu dros y blynyddoedd gan fod ei gemwaith yn boblogaidd iawn gan gwsmeriaid ar draws y byd, a daw ymwelwyr o bedwar ban byd i'r siop yn Nhregaron. Mwynhawyd te a sgon ar y diwedd wedi ei baratoi gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

Ifor Lloyd, Aberaeron, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod brynhawn Mawrth, 13 Tachwedd. Teitl ei gyflwyniad oedd 'Canu, Ceir a Cobs', sef y tri maes y bu'n llwyddiannus ynddynt. Soniodd am ei lwyddiant fel cantor pan oedd yn iau gan iddo ennill llawer o wobrau mewn gwahanol eisteddfodau, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Llangollen a'r Eisteddfod Genedlaethol. Bu'n fuddugol bedair gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ennill y Rhuban Glas yn Eisteddfod y Barri yn 1968. Teithiodd i Ganada ac America fel unawdydd gyda Chôr Pendyrus, a rhyddhaodd sawl record.

Ef a'i frawd fu'n gyfrifol am sefydlu cwmni Lloyd Motors, ac agorwyd garej gyntaf y teulu yn Aberaeron yn 1964 yn gwerthu cerbydau Volvo. Ymhen rhai blynyddoedd roedd ganddynt bedair garej, ond daeth cysylltiad Ifor â'r garej i ben yn 1985. Bu diddordeb ganddo mewn cobiau Cymreig erioed gan fod ei dad, Roscoe Lloyd, wedi sefydlu Bridfa Derwen yn 1944. Bu Ifor yn prynu a gwerthu cobiau a'u hallforio i ugain o wledydd ar draws y byd. Bu'r teulu yn llwyddiannus iawn wrth ddangos y cobiau, gan ennill Cwpan Tywysog Cymru dair ar ddeg o weithiau yn y Sioe Frenhinol, a chofnodwyd hanes y gamp honno mewn llyfr. Bedair blynedd yn ôl ymddangosodd y gyfrol *Canu, Ceir a Cobs* yn olrhain hanes Ifor, ac eleni cyhoeddwyd fersiwn Saesneg ohoni. Diolchwyd i Ifor am hanes difyr iawn, ac yna mwynhawyd y te a'r pice bach a baratowyd gan Non Griffiths ac Eirlys Jones.

## Chwefror

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Bryn Roberts / Ann Jones*

**3** Oedfa am 10 o’r gloch yng Nghapel Noddfa

6 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2 o’r gloch
‘Prynhawn yng nghwmni Eurig Salisbury’

Pwyllgor Eglwys y Garn
Festri’r Garn am 7 o’r gloch

**10** Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o’r gloch

15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Hawl i Holi’

**17** Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad
y Parch J. E. Wynne Davies

**24** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch dan arweiniad y Gweinidog
Oedfa’r bore yn y Garn; oedfa’r hwyr ym Methlehem, Llandre

### Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth (parhad)

Roedd naws y Nadolig i’w deimlo yn y cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 11 Rhagfyr, pan ddaeth Ann ac Alan Wynne Jones, Bow Street, atom i gyflwyno stori’r Nadolig wrth ddilyn yr wyddor Gymraeg. Roedd pob llythyren yn nodi stori neu achlysur arbennig i’w wneud â’r ŵyl, a diolch i rai o’r aelodau a’n gweinidog a gymerodd ran.

Diolchwyd i Ann ac Alan am brynhawn hyfryd, ac ar y diwedd mwynhawyd te a chacennau Nadolig a baratowyd gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

*Carys Briddon*

## *Capel y Garn*

Llongyfarchiadau calonnog:

i Gwynant a Bet Evans, ac i Dai a Sandra Mason, ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar;

i Nans Morgan ar gael ei hethol yn Is-lywydd Clwb Golff y Borth;

i Gwern Penri ar ei swydd newydd gydag Undeb Rygbi Cymru.

Hefyd, pob dymuniad da i Dewi a Nerys Hughes yn eu cartref newydd yng Nghae'r Wylan.

### Grŵp Help Llaw

Mae'r grŵp yn cyfarfod am 2 o'r gloch ar brynhawn Mercher (ac eithrio pan fydd cyfarfod o'r Cwrdd Chwiorydd) – ac mae croeso cynnes i chi droi i mewn am baned a sgwrs.

Byddai'r aelodau'n ddiolchgar am unrhyw arian mân i'w gyflwyno i Water Aid a hefyd am stampiau oddi ar amlenni cardiau Nadolig &c i'w cyflwyno at achosion da. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Shân Hayward (rhif ffôn: 01970 828268).

### Rhestr Flodau

Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer oedfaon y Garn ar y Sul, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda.
Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

## *Bethlehem, Llandre*

Os byddwch am drefnu i logi Bethlehem, cysylltwch â:
Mrs Nans Morgan, Dolgwiail, Llandre; rhif ffôn: 828487;
ebost: nansmorgan@btinternet.com.

# Mawrth

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Elizabeth Lloyd Jones / Marian Beech Hughes*

1 Dydd Gweddi'r Byd
Gwasanaeth yng Nghapel y Garn am 2 o'r gloch

**3** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

**10** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd

15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7 o'r gloch
'Dathlu Gŵyl Ddewi' gydag Ifan Gruffydd, Tregaron
ym Methlehem, Llandre

**17** Oedfa gymun am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

**24** Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog
Capel Rehoboth, Taliesin

**31** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Parch Eric Greene

## *Dydd Gweddi'r Byd 2019*



Cynhelir Dydd Gweddi'r Byd (Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd, gynt) ar 1 Mawrth 2019. Er mai'r gwragedd sy'n trefnu ac yn arwain gyda'r digwyddiad hwn, mae croeso i bawb ymuno.

Thema'r gwasanaeth yw 'Dewch—mae popeth yn barod', a pharatowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Slofenia. Mae'n ein hatgoffa fod gwahoddiad Duw i bawb—beth bynnag eu hil, eu crefydd, eu rhyw, eu rhywioldeb, eu hoedran neu eu hanabledd. Nid yw Duw yn gwrthod neb—a ddylen ninnau ddim gwneud hynny chwaith!

## ‘Beth nesa’? Anerchiad y Parch Meirion Morris

Ar nos Fercher, 7 Tachwedd, cynhaliwyd cyfarfod agored yng Nghapel y Garn dan nawdd Pwyllgor yr Ofalaeth pan anerchwyd aelodau’r Pwyllgor ac aelodau o bob un o eglwysi’r ofalaeth gan y Parch Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Teitl heriol ei anerchiad oedd ‘Beth nesa’?, a dewisodd yn fframwaith i’w sylwadau y geiriau ‘Byw heddiw, yng ngoleuni ddoe, i groesawu yfory’.

Y cefndir a’r cyd-destun penodol oedd y dirywiad ystadegol mewn aelodaeth eglwysig: erbyn hyn oddeutu deunaw mil yn unig o aelodau sy’n perthyn i’r enwad, ac nid annhebyg yw sefyllfa’r enwadau eraill yng Nghymru hwythau. Mewn sefyllfa o’r fath nodwyd ei bod yn bwysig cofio bod yr eglwys wedi goroesi am dros ddwy fil o flynyddoedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ei bod wedi ymgynnal mewn pob math o amgylchiadau gwahanol. Yn y cyfwng oedd ohoni yr oedd agwedd gadarnhaol yn hollbwysig, agwedd a oedd yn gweld yfory fel rhywbeth i’w groesawu.

Tynnwyd ein sylw at unfed bennod ar ddeg y Llythyr at yr Hebreaid sy’n diffinio ffydd:‘y mae ffydd yn warant o bethau y gobeithir amdanynt, ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld’. Yn y bennod ailadroddir yr ymadrodd ‘Trwy ffydd …’ mewn perthynas â hanes y patriarchiaid a’r proffwydi. Cyfeiriwyd yn benodol at hanes Moses fel y’i hadroddir yn adnodau 23–7:

**Trwy ffydd** y cuddiwyd Moses ar ei enedigaeth am dri mis gan ei rieni …

**Trwy ffydd** y gwrthododd Moses, wedi iddo dyfu i fyny, gael ei alw yn fab i ferch Pharo, gan ddewis goddef adfyd gyda phobl Dduw …

**Trwy ffydd** y gadawodd yr Aifft, heb ofni dicter y brenin, canys safodd yn gadarn fel un yn gweld yr Anweledig.

Pwysleisiwyd i Foses wneud dewisiadau, a’u gwneud oherwydd grym ei ffydd.

Yr un ffunud, yr oedd angen i ninnau wneud dewisiadau a allai fod yn rhai anodd, a'u gwneud dan arweiniad ac yng ngoleuni ffydd. Os na fyddem yn ceisio adeiladu ar y sefyllfa bresennol, ar y gorau 'dal ati' a wnaem ac ar y gwaethaf fugeilio dirywiad. Yr oedd angen parodrwydd i symud yn hytrach nag aros yn ein hunfan, parodrwydd i fentro ac i sefyll. Rhaid oedd inni ofyn: 'Pa mor barod ydym i newid?' Mewn sefyllfa anodd a dyrys yr oedd hyder ysbrydol yn hollbwysig. Tua diwedd yr anerchiad atgoffwyd ni o eiriau Paul yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid 15:4: 'Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafael yn ein gobaith.'

Esgorodd yr anerchiad ar gwestiynau a sylwadau gan nifer o aelodau'r gynulleidfa. Wrth ymateb i'r anerchiad nododd y Parch Ddr Watcyn James fod perygl na fyddai tystiolaeth Gristnogol ar gael yn y Gymru Gymraeg ymhen ugain mlynedd pe byddai'r tueddiadau presennol yn parhau, ond, serch hynny, mynegodd ei ffydd a'i argyhoeddiad fod gan Iesu fwriadau da ar gyfer ei eglwys. I derfynu, diolchwyd i'r Parch Meirion Morris am ei genadwri gan Mrs Janet Jones, Cadeirydd Pwyllgor yr Ofalaeth.

*Gruffydd Aled Williams*
*Ysgrifennydd Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth*

## Gair o Ddiolch o Gapel Waungoleugoed, Llanelwy

Un o'r siaradwyr yng nghyfarfodydd Sasiwn Chwiorydd y De yng Nghapel Bwlch-gwynt ym mis Mai 2018 oedd yr Athro Mari Lloyd Williams. Yn ei hanerchiad, soniodd am y cynlluniau 'Gofal Dydd' a 'Helpu'n Gilydd' sy'n cael eu trefnu ganddi yng Nghapel Waungoleugoed ar gyfer yr henoed a phobl fregus. Yn ystod y Sasiwn, derbyniwyd nwyddau amrywiol yn rhoddion tuag at y projectau hyn, ac yn ddiweddar cafwyd y neges hon o ddiolch gan Mari:

'Roeddwn eisiau anfon neges i ddiolch eto am y rhoddion arbennig o'r Sasiwn. Maent wedi bod ar werth yn ein siop fach a hefyd yn ein ffair ddydd Sadwrn diwethaf [17 Tachwedd]. Bu inni godi dros £4,550 o'r ffair ac roedd y nwyddau hyfryd a gawsom o'r Sasiwn yn sicr yn help mawr at godi'r arian yma.'

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Dechreuodd tymor ein gweithgareddau ar 3 Hydref pan gynhaliwyd ein cyfarfod diolchgarwch yn y capel, dan arweiniad ein Llywydd, Mrs Lowri James. Cafwyd ganddi neges amserol a pherthnasol.

Yn dilyn hynny, ar 13 Hydref, cawsom y fraint o groesawu Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth i'r Garn, gyda'n haelodau'n cymryd rhan yn y defosiwn agoriadol ac yn paratoi te yn y festri wedyn.
Y Parchedig Geraint Morse fu'n annerch ac fe gawsom ganddo hanes llwyddiant y brecwastau gweddi a gynhelir yn Sir Benfro.

Ddydd Sul, 21 Hydref, ni'r Chwioryddi gafodd yr anrhydedd o baratoi te croeso ar achlysur uno cynulleidfaoedd y Babell a'r Garn. Braf oedd gallu gwneud cyfraniad cysurlon felly ar ddiwrnod a oedd yn sicr yn ennyn teimladau o dristwch ac o hiraeth mewn llawer i fron.

Yn ddiweddarach y nos Sul hwnnw torrodd y newyddion am farwolaeth Janet Roberts, a'n braint ni oedd cael ein gwahodd i gydweithio â Merched y Wawr Rhydypennau i baratoi'r te ddiwrnod y cladddedigaeth a thrwy hynny ad-dalu gronyn o'r llawenydd roedd Janet yn ei ledaenu drwy ei phresenoldeb gwengar ac addfwyn.

Codi cwr y llen ar ei brofiadau rhyfeddol yn yr India wnaeth y Parch Watcyn James pan ddaeth i sgwrsio â chyfarfod mis Tachwedd. Cyn diwedd y mis hwnnw, fore Sadwrn, 24 Tachwedd, roedd y Gweinidog yn ôl gyda ni yn torri Cacen yr Adfent yn y Bore Coffi blynyddol. Roedd y gacen hardd wedi ei rhoi ar gyfer yr achlysur gan Gartref Tregerddan i fynegi gwerthfawrogiad o wasanaeth ein haelod Kathleen Lewis i'r Cartref. Dros gwpaneidi o goffi wedi hynny bu cryn bendroni uwch cwis lluniau amrywiol a heriol Iestyn Hughes, a phrynu eiddgar ar y cynnyrch cartref a'r addurniadau Nadolig a oedd ar y stondinau. Drwy hynny i gyd codwyd swm anrhydeddus i'w rannu rhwng Capel y Garn a chronfa i helpu ffoaduriaid.

I ddod â gweithgareddau'r hanner yma o'r flwyddyn i ben, yn y Wildfowler yn Nhre'r-ddôl y bu'r cyfarfod brynhawn Rhagfyr 5ed, pryd y cawsom gyfle i fwynhau cinio Nadolig gyda'n gilydd, yn deulu o ffrindiau.

Brynhawn Mercher, Ionawr 9fed, y bydd y cyfarfod nesaf, yng Nghapel y Garn.



Y Parch
Geraint Morse
yn annerch



Y Gweinidog yn torri'r
gacen Adfent yn barod
i'w rhannu—gyda
diolch i Gartref
Tregerddan
am eu haelioni

## *Colli Janet Roberts*

Mae'n wir mai pentref Bow Street oedd cynefin Janet Roberts ac mai yma y treuliodd y rhan helaethaf o'i hoes. Ar 29 Hydref 2018 yng Nghapel y Garn cynhaliwyd gwasanaeth ei hangladd, bron â bod hanner can mlynedd i'r diwrnod wedi dydd ei phriodas gyda Ron ar 26 Hydref 1968. Gellir dweud mai dyna pryd y dechreuodd bywyd Janet a bywyd y fro gydblethu.

Daeth cynulleidfa niferus i'r gwasanaeth i dalu eu teyrnged i Janet ac i gydymdeimlo â'i meibion, Dylan, Steffan a Trystan a'r cysylltiadau ehangach. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth, oedd yng ngofal y Parch Ddr Watcyn James, gan y Parchgn Elwyn Pryse, Wyn Morris (cyn-weinidogion y Garn) a Richard Lewis (Noddfa).

Cafodd Janet ei magu yn Aberystwyth, yng nghyffiniau'r castell a'r harbwr yn Prospect St. Ac roedd bywyd capel bach Tan-y-cae, Seion a Bethel, Baker St, yn rhan annatod o fywyd ei theulu. Yn ystod y cyfnod hwn crëwyd cyfeillgarwch, yn yr Ysgol Gymraeg ac yn ysgol Ardwyn, ac yna yn ddiweddarach yn y Coleg Normal ym Mangor, a fyddai'n aros ar hyd ei hoes.

Wedi treulio amser yn dysgu yn Birmingham dychwelodd i ddysgu yn Ysgol Plas-crug. Ac yn yr ardal yn dysgu a chyflenwi mewn ysgolion gwledig yng ngogledd Ceredigion y treuliodd Janet ei gyrfa.

Ergyd ddifrifol iddi oedd colli ei mam a'i phriod Ron yn ddisymwth, yn agos at ei gilydd, gan adael tri o fechgyn i'w magu. Yn naturiol ddigon roedd yn falch o'i meibion ac yn llawenhau yn ei hwyrion: Fabien, Sofia a Jack.

Bydd llawer yn cofio Janet am ei gwên siriol, ond cuddiai ei gwên berson preifat iawn. Soniodd nifer fod ganddi 'lygad dda am ddillad' a'i bod yn ofalus fod ei gwisg yn drwsiadus ac yn cydweddu. Ac mewn llun ar daflen ei hangladd fe'i gwelwyd yn gwisgo ei hoff liw – *lime green*!

Hoffai ddarllen a hoffai deithio, a mynych oedd ei theithiau i gyfandir Ewrop gyda 'Teithiau Glan' neu 'Tripiau Heini'. Ac ni chychwynnai ar daith heb ddarllen a pharatoi yn drwyadl o flaen llaw.



Cyfrannodd i fywyd Capel y Garn lle bu'n athrawes yn yr Ysgol Sul am dros 25 mlynedd, yn drysoryddes yr Ysgol Sul ac yn Ysgrifenyddes y Gymdeithas. Cyfrannai i'r Pryd ar Glud ac i Ferched y Wawr, ac roedd yn aelod gwreiddiol o gwmni drama Licyris Olsorts ac yn hoff o berfformio gyda'r cwmni.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf o'i bywyd yn llawn o bryder ac o ofn, ond wynebodd y gelyn a ddaeth ati gyda dewrder tawel.

Wrth ddiolch am gyfraniad Janet i'r fro, diolchwn hefyd am addewidion Duw i'w bobl. Dywedodd ef wrth bobl ofnus oedd wedi colli popeth oedd yn annwyl iddynt eiriau a oedd – ac sydd – yn llawn o gysur, hyd yn oed heddiw.

'Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di; galwaf ar dy enw; eiddof fi ydwyt. Pan fyddi'n mynd trwy'r dyfroedd, byddaf gyda thi; a thrwy'r afonydd, ni ruthrant drosot. Pan fyddi'n rhodio trwy'r tân, ni'th ddeifir, a thrwy'r fflamau, ni losgant di. Oherwydd myfi, yr ARGLWYDD dy Dduw, Sanct Israel, yw dy Waredydd.' (Eseia 43)

Wedi'r cynhebrwng, darparwyd lluniaeth gan chwiorydd Capel y Garn a Merched y Wawr, Rhydypennau. A mawr yw ein diolch iddynt am eu caredigrwydd a'u gofal.

Derbynnir rhoddion, er cof am Janet, er budd yr RNLI drwy law Gwyn Evans, C.T. Evans, Brongenau, Llandre.

## Diogelu Data—rheolau newydd ynghylch data personol

Ym mis Mai 2018 daeth rheolau newydd i rym ynglŷn â gwarchod neu ddiogelu data personol unigolion. Pwrpas y deddfau newydd hyn a deddfwriaeth debyg yw gwarchod preifatrwydd unigolion.

Yn dilyn hyn, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi trefnu sesiynau hyfforddi i swyddogion capeli fel eu bod yn gallu cydymffurfio â'r rheolau newydd a hefyd wedi rhoi llawer o ddogfennau a'r ffurflenni perthnasol yn yr adran Adnoddau ar wefan yr enwad (www.ebcpcw.cymru).

Yn fras, bydd yn rhaid i bob aelod roi ei ganiatâd / ei chaniatâd cyn y gall swyddogion y gwahanol gapeli ddefnyddio eu data personol fel rhan o waith yr eglwys a'u hysbysu trwy e-bost am weithgareddau'r eglwys. Bydd y gwahanol gapeli'n gyfrifol am weinyddu'r drefn eu hunain, ond— er gwybodaeth yn unig— gwelir isod ran o'r **Ffurflen Caniatâd Aelodau** y bydd swyddogion gwahanol gapeli'r ofalaeth yn gofyn i'r aelodau ei llenwi yn y flwyddyn newydd. **DS** Ni ddylid llenwi'r ffurflen hon yma. Byddwch yn cael copi o'r ffurflen gyfan gan swyddogion eich capel.

Ticiwch y blychau isod i gadarnhau eich bod yn caniatáu i Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) ddal a phrosesu eich data personol. Gallwch gydsynio â phob un o'r pwrpasau, rhai yn unig, neu ddim o gwbl. Os ydych yn cydsynio gyda phob un o'r pwrpasau, ticiwch y blwch sydd ar y brig os gwelwch yn dda.

| | **Yr wyf yn cydsynio â phob un o'r pwrpasau isod** |
|---|---|
| | |
| | Rhoi gwybod i chwi am newyddion, digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau'r eglwys. |
| | Cynnwys eich rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad yn Adroddiad Blynyddol yr eglwys* |
| | Cynnwys enw / llun eich plentyn/plant (hyd at, ac yn cynnwys 15 mlwydd oed), yn yr Adroddiad Blynyddol, cylchlythyr yr eglwys/ yr ofalaeth, taflen gyhoeddiadau; mewn recordiad fideo a / neu lluniau o weithgarwch neu ddigwyddiad yn yr eglwys, a all gael ei osod ar wefan yr eglwys (neu EBC), gwefannau cymdeithasol yr eglwys (neu EBC) a / neu ei ddangos mewn cyfarfod eglwysig (neu EBC) a/ neu ar hysbysfwrdd yr eglwys; a chyfraniadau ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol. |
| | Cynnwys eich cyfraniadau ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol. |
| | Cynnwys gwybodaeth am Rhodd Cymorth a hawliwyd ar sail eich cyfraniad ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol. |

Lle na cheir caniatâd, ni fydd modd i ni [h.y. Swyddogion y gwahanol gapeli] ddefnyddio eich data personol i'r diben hwnnw (er enghraifft, mae'n bosib na fyddwn yn gallu eich hysbysu am wasanaethau a digwyddiadau eraill sydd i ddod). Gellir cael mwy o wybodaeth am y modd yr ydym yn defnyddio eich data o'n "Hysbysiad Preifatrwydd" sydd i'w weld ar ein gwefan (www.ebcpcw.org.uk) neu ar gael o Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol.

Gall oedolion a phobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed arwyddo'r ffurflen hon. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl neu ei newid ar unrhyw adeg trwy gysylltu gyda [Swyddogion eich Eglwys]. Nodwch y bydd prosesu eich data personol i'r diben hwnnw yn dod i ben unwaith i chi dynnu'r caniatâd yn ôl, oni bai fod hyn yn gyfreithiol angenrheidiol, ond ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw ddata personol sydd eisoes wedi'i brosesu yn barod. Os cytunwch i dderbyn gwybodaeth, byddwn yn ychwanegu eich enw at ein rhestr e-bost. Gallwch ddad-danysgrifio ar unrhyw adeg, un ai trwy glicio ar y ddolen dad-danysgrifio ar waelod ein e-byst neu trwy gysylltu gyda [Swyddogion eich Eglwys].

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ysgrifennydd eich Eglwys neu ewch i wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Diolch am eich cydweithrediad.



Yr Athro Geraint H. Jenkins, a fu'n traethu'n ddifyr ac yn huawdl ar destun ei gyfrol newydd — *Y Digymar Iolo Morganwg* — yng nghyfarfod mis Tachwedd o Gymdeithas Lenyddol y Garn





Rhai o Chwiorydd y Garn yn mwynhau eu cinio Nadolig yn y Wildfowler, Tre'r-ddôl

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Janet Jones, Nasareth

*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE

(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Mawrth:**

Mr Dewi G Hughes
dewinerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com